1 Tachwedd 2017

Yr Athro P Spencer (Cadeirydd), Mr S Barnard, Miss S Barnes, Mrs T Hibbert, Mr A Jones, Dr L Jones, Mr W Jones, Mrs M Lake, Ms C Monks, Dr L Murphy, Miss E Riches, Dr H Roberts, Mr S Roberts, Mrs E Parry Williams, Mr G W Jones (Ysgrifennydd).

Mr H Ellis, Dr J Latchford, Dr K Mundy, Yr Athro C Tully.

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 24 Mai 2017.

a) <u>515 GrƧp Tasg Iechyd a Diogelwch</u>:  Nid oedd cadeirydd y grƧp tasg yn bresennol felly ni chlywyd y diweddaraf am drafodaethau'r grƧp tasg ynglΣn © sut i liniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â gwaith y Bwrdd Cynaliadwyedd Ariannol, a'i grwpiau gweithredu.  Cytunwyd i ohirioôr mater hwn tan y cyfarfod nesaf.

b) <u>515 Gwasanaethau Eiddo a'r Campws</u>: Nid oedd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Eiddo a'r Campws yn bresennol ac felly ni chyflwynwyd unrhyw wybodaeth i'r grƧp tasg ynglΣn © chyfyngiadau o ran adnoddau a threfniadau i liniaru effaith y

(arfer sylfaenol, arfer da ac arfer gorau) nes cyrraedd cydymffurfiad o 100% yn y lefel perfformiad blaenorol.

Darganfu'r archwiliad bod trefniadau'r adran i reoli iechyd a diogelwch o safon 'arfer da', a dim ond nifer fechan o gamau gweithredu a nodwyd.

Roedd y gefnogaeth ragorol mae'r adran yn ei chynnig i'w myfyrwyr rhyngwladol i sicrhau eu bod yn cael profiad cadarnhaol ym Mangor yn amlwg yn ystod yr archwiliad.

Mae'r adran wedi gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch i ddatblygu ei system reoli iechyd a diogelwch ac mae'r cyfarwyddwr, uwch reolwyr a'r cydlynydd iechyd a diogelwch yn yr adran wedi bod yn ymwneud â'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch.

Gwelwyd bod trefniadau'r adran i reoli iechyd a diogelwch o safon 'arfer da'. Nodwyd nifer fechan o gamau gweithredu.  Roedd y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yn ymwneud â'r angen i arddangos tystysgrifau landlord 'Gas Safe' mewn adeiladau perthnasol.

Tynnodd yr archwiliad sylw at ymrwymiad eithriadol y tîm Neuaddau, sy'n cynnwys y wardeiniaid a Bywyd Campws, i sicrhau bod trefniadau iechyd a diogelwch cadarn yn eu lle.  Mae hyn yn hanfodol mewn adran o'r fath sy'n gweithredu er lles ei chwsmeriaid, ac oherwydd natur risg uchel y gwasanaethau y mae'n eu darparu i fyfyrwyr.

Rhoddwyd canmoliaeth benodol i'r tîm gweithrediadau, sy'n gyfrifol am gyflawni nifer o swyddogaethau i sicrhau bod safonau iechyd a diogelwch da yn cael eu bodloni a'u cynnal a'r tîm wardeiniaid am eu cefnogaeth ragorol i fyfyrwyr yn ystod eu hamser yn y neuaddau.

Rhoddwyd crynodeb o Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2016/2017, a ddosbarthwyd yn flaenorol, a nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

a. Cafwyd adroddiadau am 58 damwain a achosodd anaf i staff a myfyrwyr (34 i staff a 24 i fyfyrwyr).  Mae hyn yn ostyngiad o'r 78 damwain a achosodd anaf yn 15/16.

   Y gymhareb damweiniau a achosodd anaf i staff oedd 16.5 o ddamweiniau i bob 1,000 o aelodau staff, gostyngiad o'r 22.4 damwain i bob 1,000 a adroddwyd yn 2015/16.   Mae'r gymhareb o ddamweiniau a achosodd anaf i staff a myfyrwyr yn sylweddol is na'r hyn sy'n arferol yn y sector.

b. Roedd 5 digwyddiad y collwyd amser o'r gwaith o'u herwydd, i gyd yn rai oedd yn gysylltiedig â chodi a chario.   Roedd y ddau ddigwyddiad a achosodd golli dros 8 diwrnod o waith yn ymwneud â heintiad, yn dilyn toriad difrifol, ac roedd y digwyddiad arall oherwydd

2.47% o oriau gwaith yn cael ei golli oherwydd absenoldeb salwch.

d. Cafwyd 121 achos o larymau tân yn canu yn adeiladau'r brifysgol (56 mewn adeiladau academaidd a 65 mewn neuaddau preswyl). Daeth y Gwasanaeth Tân ac Achub allan 34 o weithiau, 29 ohonynt i neuaddau preswyl.

e. Cafwyd un tân (yn unol â'r diffiniad). Roedd hwn yn ddigwyddiad a ystyrid fel ymgais fwriadol i ddechrau tân, ond ni achoswyd unrhyw ddifrod sylweddol.

f. Yn ystod y flwyddyn, trefnodd y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch 67 o gyrsiau "wyneb yn wyneb" i 299 o gyfranogwyr.

g. Mae darparu gwybodaeth a hyfforddiant addas am iechyd a diogelwch i aelodau staff yn ofyniad statudol. Un agwedd ar hyn yw sesiwn gynefino'r brifysgol, a drefnir gan Adnoddau Dynol. Yn 16/17, daeth 79% o aelodau staff newydd i'r sesiwn gynefino. Mae hyn yn 16% yn uwch na 15/16.
Nodwyd bod trefniadau i gofnodi sesiynau cynefino iechyd a diogelwch lleol yn parhau i fod yn wendid ar draws y brifysgol.

h. Cofnododd 1,513 o staff/myfyrwyr deithiau tramor ar y gronfa ddata yswiriant ganolog. O'r rhain, adroddwyd am 6 digwyddiad lle bu'n rhaid i staff/myfyrwyr gael sylw meddygol dramor.

Ni nodwyd unrhyw eitemau.